Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Gadeirydd

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn garedig wedi gwneud gwaith craffu adeiladol ar Gyllideb y Comisiwn 2023-24 yn ystod y misoedd diwethaf. Yn dilyn eich argymhellion a'n penderfyniad i'w derbyn, gosodwyd Cyllideb y Comisiwn 2023-24 ar 9 Tachwedd 2022 a bydd yn cael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 23 Tachwedd.

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r digwyddiadau yn ystod y broses o bennu'r Gyllideb a'r broses graffu, rhaid imi ddwyn eich sylw at sawl pwynt pwysig ac arwyddocaol rwy'n bwriadu eu codi yn y Siambr ddydd Mercher.

I grynhoi, gosodwyd Cyllideb Ddrafft y Comisiwn 2023-24 ar 28 Medi, craffwyd arni ar 5 Hydref, a chyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar 21 Hydref 2022. I Fodloni gofyniad y Rheolau Sefydlog, i osod cyllideb ddrafft y Comisiwn erbyn 1 Hydref, gwnaed gwaith i baratoi a datblygu'r gyllideb yn ystod tymor yr haf a daeth hyn i ben ym mis Awst 2022.

Ochr yn ochr â'r amserlen uchod, mae digwyddiadau gwleidyddol ac economaidd digynsail wedi golygu bod y gyllideb a ddeilliodd o hynny wedi'i goddiweddid gan realiti newydd o ran cyllid cyhoeddus.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei **Ddatganiad o Egwyddorion** yn 2019. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Comisiwn, a chyrff eraill a ariennir yn uniongyrchol, ystyried yr egwyddorion hyn wrth baratoi ei gynigion cyllidebol blynyddol. Yn y bôn, mae'r Datganiad o Egwyddorion yn nodi y dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu tymor hir yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith lawn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar bwrs cyhoeddus Cymru, nodwn y cynnydd o £1.2 biliwn yng ngrant bloc Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, mae’r cynnydd o 4.6 y cant mewn cyllid adnoddau rhwng 2022-23 a 2023-24 (o 15.2 biliwn i £15.9 biliwn)* yn is na chwyddiant a gallai hyn effeithio’n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi’r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas a diogelu dyfodol tymor byr y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Mae’r Comisiwn bellach o’r farn bod angen diwygio ei gais am gynnydd o 4 y cant i’r gyllideb ar gyfer 2023-24 i adlewyrchu’r pwysau ychwanegol y bydd y sector cyhoeddus ehangach yn debygol o’u hwynebu yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn gael cyllideb gymeradwy wedi’i chytuno gan y Senedd erbyn 27 Tachwedd, ac felly ni allwn ddiwygio’r gyllideb a sicrhau y gwneir gwaith craffu effeithiol arni erbyn y dyddiad hwn.

Mae angen gwyro oddi wrth y broses arferol, felly, er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchiadau digynsail hyn.

O ganlyniad, cynigiaf y dylai’r gyllideb sydd i’w thrafod ddydd Mercher aros heb ei newid, ond gan wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol byddaf yn ymrwymo i adolygiad yn ystod y flwyddyn gan y Comisiwn, fel corff cyhoeddus cyfrifol, i ddod o hyd i arbedion a chyflymu arbedion effeithlonrwydd.  Bydd hyn yn adlewyrchu’r realiti rydym yn ei hwynebu heddiw, yn hytrach na’r hyn a oedd yn bodoli yn ystod y broses o bennu’r Gyllideb dros yr haf.

Mae hwn yn fater o bragmatiaeth gyfrifol a gweithredu ystwyth.

Roeddem eisoes wedi ymrwymo i wneud y gwaith hwn mewn pryd i’w ymgorffori yng nghyllideb 2024-25, ond rwy’n cynnig nawr y dylai gwaith gael ei ddwyn ymlaen a’i wneud yn gynt. Mae hyn yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion sy'n nodi y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella prosesau a gwneud arbedion effeithlonrwydd yn barhaus.

Rydym yn benderfynol o sicrhau bod unrhyw weithgareddau a gwasanaethau a gynllunnir i Aelodau yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Mae'n bwysig i ni felly bod unrhyw ostyngiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol a'u bod yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i sicrhau gwaith cynllunio gweithlu effeithiol ac i lesiant. Fodd bynnag, ni fydd hon yn dasg hawdd a bydd yn cael effaith ar yr Aelodau.

Rwy’n rhagweld dau fath o newid neu arbediad:

Y cyntaf fydd gwneud toriadau mewn meysydd lle nad yw gwariant wedi’i ymrwymo’n ddi-alw’n ôl eto, gan gynnwys gostyngiad sylweddol i’r Gronfa Prosiect.  Mae'r gronfa hon yn £1.5 miliwn. Mae gan y gwasanaethau Ystadau a TGCh flaenraglenni gwaith a chaiff y rhain eu blaenoriaethu yn ystod y flwyddyn, yn dibynnu ar eu pwysigrwydd strategol a statudol a chan ystyried pwysau eraill

yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn un maes o gyllideb y Comisiwn lle nad wneir ymrwymiad i’r gwariant ar ddechrau'r flwyddyn.

Byddai gostyngiad o tua £600,000 i’r gronfa prosiect hon yn golygu oedi cyn dechrau’r prosiectau hyn a’r holl brosiectau yn y dyfodol, gan olygu y byddai risg o gostau prosiect cyffredinol ychwanegol yn y tymor hir ac oedi anffodus yn y mesurau datgarboneiddio y mae Aelodau eich pwyllgor wedi bod mor gefnogol iddynt. Fodd bynnag, byddai toriad o'r maint hwn yn arwain at leihad o tua 1 y cant i’r gyllideb gyffredinol.

Mae’r ail gategori o arbedion yn ymwneud â’r ffyrdd o weithio y mae llawer wedi dychwelyd iddynt yn y cyfnod ar ôl COVID-19, ac a fyddai’n cael effaith sylweddol fwy ar Aelodau a staff. Er enghraifft, mae un o'r codiadau mwyaf yng nghyllideb 2023-24 a fydd yn cael ei thrafod ddydd Mercher i’w weld mewn perthynas â chyfleustodau. Mae’r gyllideb yn nodi cynnydd o £582,000 yn 2022-23 i gost amcangyfrifedig o £1.251 miliwn yn 2023-24.

Bydd cynnydd o’r maint hwn yn anodd i’r Comisiwn ei amsugno, gan mai ychydig iawn o wariant dewisol sydd ganddo ac oherwydd ein bod eisoes wedi cyflwyno systemau gwresogi ar sail parthau ac wedi troi’r thermostatau i lawr ar draws yr ystâd. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi felly i sut y gellir lleihau'r defnydd o ynni ymhellach. Bydd cau'r ystâd am gyfnodau byr neu estynedig ymhlith yr opsiynau i'w hystyried. Byddaf hefyd yn ystyried cynnydd mewn prisiau ar gyfer breintiau Aelodau, fel ailgyflwyno ffioedd ar gyfer parcio diogel yn ogystal â mesurau codi refeniw eraill a allai, yn anffodus, fod yn amhoblogaidd ymhlith Aelodau, ond yn angenrheidiol o ystyried y sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus. Byddai unrhyw daliadau o'r fath ar gyfer staff yr Aelodau a gweithwyr eraill yn gwarantu tegwch i'r rhai ar incwm is drwy fecanweithiau fel graddfa costau ac eithriadau ar gyfer staff y tu allan i oriau (diogelwch a glanhawyr).

Rhaid imi bwysleisio eto, os ydym am gyflawni’r arbedion y mae’n debygol y bydd eu hangen er mwyn i gyllideb Comisiwn y Senedd adlewyrchu newidiadau i chwyddiant a’r Grant Bloc, y bydd yn ofynnol inni wneud penderfyniadau anodd dros ben. Diogelu iechyd meddwl a llesiant staff, cynnal y safonau uchaf o ran diogelwch a seiberddiogelwch, ac ymgysylltu â’n cymunedau anoddaf eu cyrraedd fydd ein blaenoriaethau yn ystod y trafodaethau sydd i ddod. Gallaf gadarnhau, felly, y bydd tâl ac amodau gweithwyr yn cael eu diogelu. Ni fyddwn, ar unrhyw gost, yn ystyried diswyddiadau fel mesur arbed costau ac ni fyddwn yn cyfaddawdu yn ein penderfyniad i helpu ein gweithlu gwerthfawr i wella eu llesiant.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn dilyn ein hegwyddorion cyfrifol yn yr wythnosau i ddod, wrth i ni ddod o hyd i arbedion er mwyn addasu i’r sefyllfa economaidd anodd sydd wedi datblygu’n ddiweddar iawn.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cyn y ddadl ddydd Mercher, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir,

Ken Skates AS

cc Comisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan, Arweinwyr y Pleidiau, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cadeiryddion Grwpiau Plaid.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

* **DATGANIAD HYDREF 2022 (publishing.service.gov.uk)** Tudalen 20